# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 10 Mawrth 2015** |
| Amser: | **09.03 – 10.57** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/85aed5b3-2ec5-4df9-98e0-ff9053f7accb?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Rob Curtis, Petitioner and Chair of Friends of Barry Beach**<br>**Gill Bell, Wales Programme Manager Marine Conservation Society** |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 2.1P-04-416 Gwasanaethau Rheilffyrdd Gogledd-De

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ofyn am:

- ei sylwadau pellach yng ngoleuni barn y deisebwr; ac am
- ddiweddariad ar y sefyllfa yn ymwneud ag adnewyddu'r Gwasanaeth Premier rhwng y Gogledd a'r De, sydd i fod i gael ei adnewyddu ym mis Mai a phryd y mae hi'n debygol o allu gwneud cyhoeddiad ar y gwasanaeth cyflym rhwng y Gogledd a'r De.

### 2.2P-04-459 Cysylltiad rheilffordd uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i ganol Caerdydd a gorllewin Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog am y wybodaeth ddiweddaraf ar y Cyswllt â Maes Awyr Caerdydd.

### 2.3P-04-599 Effaith Ardrethi Domestig ar Lety Hunan Arlwyo

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ofyn am ddiweddariad brys ar y mater a gofyn am eglurhad ar:

- a oes gwaith ar y gweill i ddiwygio'r Effaith Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010 yn dilyn adroddiad Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw a'r ymgynghoriad dilynol (fel y nodwyd i Gyngor Twristiaeth Cymru); ac
- yng ngoleuni hyn i egluro'r datganiad ym mharagraff olaf ei llythyr ar 10 Hydref fod '... gweithdrefnau sydd ar waith ar hyn o bryd yn ddigonol ac nid oes angen gweithredu pellach.'

### 2.4P-04-492 Diagnosis o awtistiaeth ymysg plant

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Byrddau Iechyd Lleol ac at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y telerau y gofynnodd y deisebwyr amdanynt. Hefyd, i ysgrifennu at Brif Swyddog Gweithredol newydd Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Steve Moore, yn gofyn am sicrwydd ynghylch y patrymau diweddaraf o ran amseroedd diagnosis ar gyfer awtistiaeth yn Sir Benfro, sy'n ymddangos fel eu bod wedi gwaethygu, ar ôl gwella i ddechrau.

### 2.5P-04-494 Rhaid sicrhau bod prostadectomi laparosgopig gyda chymorth robotig ar gael i ddynion yng Nghymru yn awr

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn pa gynlluniau sydd yna i ddarparu offer i Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i gynnal triniaethau gyda chymorth robotig, ac i gael gwybodaeth am y system sydd ar y gweill ym Manceinion ar hyn o bryd. Hefyd, i gael eglurder am y goblygiadau o ran cost i'r Bwrdd Iechyd o barhau i anfon cleifion i Fanceinion.

### 2.6P-04-501 Gwneud canolfannau dydd ar gyfer pobl hŷn yn ofyniad statudol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am ymateb gan y deisebydd.

### 2.7P-04-527 Ymgyrch i gael Cronfa Cyffuriau Canser Arbennig yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y deisebydd i ofyn iddo fynegi cydymdeimlad y Pwyllgor â theulu Beth Margetson; ac
- aros am ymateb gan y deisebydd ar yr ohebiaeth Weinidogol.

### 2.8P-04-532 Gwella Gwasanaethau Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Byrddau Iechyd a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i ofyn iddynt ystyried y camau penodol y mae llythyr y deisebydd yn galw amdanynt;
- y Gweinidog yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ar y mater nawr bod apwyntiad yn ei le; ac
- y Grŵp trawsbleidiol ar Gyflyrau Dystroffi'r Cyhyrau a Niwrogyhyrol fel eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa ddiweddaraf.

### 2.9P-04-568 Ymchwiliad Cyhoeddus i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r deisebydd a oes ganddo unrhyw sylwadau ar yr ymchwiliad y mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ymgymryd ag ef ar hyn o bryd; ac

- aros am ganlyniad ystyriaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

### 2.10 P-04-571 Trin Anemia Niweidiol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ddiolch i'r Gweinidog am ei ymateb adeiladol a gofyn iddo hysbysu'r Pwyllgor o ganlyniad ei:

- lythyr at Jane Ellison AS, Is-Ysgrifennydd Seneddol ar Iechyd mewn perthynas â chefnogaeth i ddatblygu triniaeth drwyddedig drwy'r geg yn gyflym; a
- chais i NIHCE i ystyried datblygu cyngor i glinigwyr.

### 2.11 P-04-583 Gwahardd Tyfu a Gwerthu unrhyw Hadau / Bwydydd a Phorthiant Anifeiliaid / Pysgod GM yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb yng ngoleuni eglurhad y Gweinidog na all Llywodraeth Cymru'n gyfreithlon wahardd cnydau GM yng Nghymru.

### 2.12 P-04-603 Helpu Babanod 22 Wythnos Oed i Oroesi.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn:

- i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sydd ar y gweill i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r achos hwn yn y dyfodol;
- i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried a oes angen ymchwiliad i'r canllawiau cyfredol ar adfywio plant a anwyd cyn pryd; ac
- i'r deisebydd i ofyn a oes cofnod ffurfiol o'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda'r Cynghorwr ar Iechyd Mamau a Phlant ac a fyddai hi'n fodlon rhannu hynny gyda'r Pwyllgor.

### 2.13 P-04-607 Galw ar Lywodraeth Cymru i brynu Garth Celyn

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i ystyried y mater o bosibl fel rhan o'i ystyriaeth o'r Bil Treftadaeth (Cymru) arfaethedig.

### 2.14 P-04-500 Galw am Reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i aros am ganlyniad y camau a amlinellwyd gan y Gweinidog, ond i ysgrifennu i ofyn iddi hysbysu'r Pwyllgor cyn gynted a bod yna gynnydd pellach.

### 2.15 P-04-528 Addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob ysgol gynradd yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am farn y deisebydd ar ohebiaeth y Gweinidog; a
- gwneud penderfyniad ynghylch cau'r ddeiseb.

### 2.16 P-04-519 Diddymu Taliadau Comisiwn wrth werthu Cartrefi mewn Parciau

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog sicrhau y bydd y deisebwyr yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ymgynghoriad ar yr adolygiad sydd i ddechrau yn y gwanwyn.

## 3 Deisebau anweithredol

### 3.1P-03-144 Cŵn Tywys y Deillion - lle sy'n cael ei rannu

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn a ydynt yn dymuno parhau â'r ddeiseb; a
- chau'r ddeiseb os na ddaw ymateb o fewn chwe wythnos.

### 3.2P-03-236 Siarter i Wyrion ac Wyresau

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn a ydynt yn dymuno parhau â'r ddeiseb; a
- chau'r ddeiseb os na ddaw ymateb o fewn chwe wythnos.

### 3.3P-04-363 Cynllun i Wella Canol Tref Abergwaun

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn a ydynt yn dymuno parhau â'r ddeiseb; a
- chau'r ddeiseb os na ddaw ymateb o fewn chwe wythnos.

### 3.4P-04-504 Diogelwch Cyffordd Pont Maerdy A483

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn a ydynt yn dymuno parhau â'r ddeiseb; a
- chau'r ddeiseb os na ddaw ymateb o fewn chwe wythnos.

### 3.5P-04-512 Rhoi terfyn ar y Cynigion i gwtogi staff ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn a ydynt yn dymuno parhau â'r ddeiseb; a
- chau'r ddeiseb os na ddaw ymateb o fewn chwe wythnos.

### 3.6P-04-520 Parthed Canslo pob Llawdriniaeth Orthopedig Ddewisol gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda dros y Gaeaf 2013/14

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn a ydynt yn dymuno parhau â'r ddeiseb; a
- chau'r ddeiseb os na ddaw ymateb o fewn chwe wythnos.

## 4 P-04-547 Gwahardd Deunydd Pacio Polystyren ar gyfer Bwyd a Diod Cyflym

Atebodd y tystion a ganlyn gwestiynau gan y Pwyllgor:

- Rob Curtis, Deisebydd a Chadeirydd Cyfeillion Traeth y Barri; a
- Gill Bell, Rheolwr Rhaglen Cymru, y Gymdeithas Cadwraeth Forol.

Cytunodd Rob Curtis i anfon gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch y gwaharddiad ar becynnau bwyd polystyren mewn Dinasoedd ar dir mawr Ewrop.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Adolygiad o'r System Ddeisebau

Trafododd y Pwyllgor yr eitem hon mewn sesiwn breifat.